ADRODDIAD CRYNO
Sesiynau galw-heibio Medi / Hydref 2009 Cynnig
Fferm Wynt Rhyd Ddu
Nuon Renewables

CYFLWYNIAD

Yn gyntaf, diolch i chi gyd am ddod i gael gwybod mwy am ddatblygiad fferm wynt arfaethedig yn Rhyd Ddu. Rydym yn gwerthfawrogi'r amser a roesoch wrth ystyried y deunydd a gyflwynwyd a rhoi eich adborth i ni, yn ogystal â sgwrsio'n onest ac agored â thîm Nuon. Teimlwn fod y digwyddiadau hyn wedi bod yn llwyddiannus wrth gyfleu natur a manylion cynigion penodol Nuon, yn ogystal â'u rhoi yn y cyd-destun lleol a chenedlaethol. Yn bwysicach, bu i lawer ohonoch a ddaeth i'r digwyddiadau sôn am natur gynhwysfawr a thrwyadl cyflwyniad Nuon. O'u rhan hwythau, roedd Nuon yn falch o gael y cyfle i ddeall yn well y nifer fawr o safbwyntiau sydd gan bobl leol sy'n byw yn y cyffiniau ynghylch y datblygiad arfaethedig.

Roedd mwy na 60 o bobl wedi cymryd rhan yn y digwyddiadau. Bu pobl yn astudio mapiau a delweddau perthnasol, yn darllen ac yn ymgyfarwyddo â'r deunydd a gyflwynwyd ac yn datgan eu barn a'u hymateb. Amrywiai'r amser y treuliai pobl yno ond ar gyfartaledd roedd tua thri chwarter awr, er bod nifer o bobl wedi bod yno am lawer mwy o amser. Rydym yn falch fod pawb a gymerodd ran wedi buddsoddi cymaint o'u hamser yn y broses hon o gyfnewid gwybodaeth a deialog gyda chynrychiolwyr Nuon. Gan ein bod bellach wedi casglu a chywain eich ymatebion, mae gan Nuon syniadau, sylwadau a barn i weithio gyda nhw wrth iddynt fireinio eu cynigion ac ystyried sut orau i gadw mewn cysylltiad â chi.

Derbyniodd mwy na 1,200 o gartrefi daflenni gan Nuon, a'r taflenni hynny yn rhoi gwybodaeth gefndir a disgrifiad o gynigion prosiect Rhyd Ddu, yn ogystal â hysbysebu'r sesiynau galw-heibio. Roedd hi felly braidd yn siomedig i Nuon mai dim ond cymharol ychydig o bobl oedd wedi medru ac wedi dewis dod draw. Er ein bod yn deall fod yna nifer o ofynion yn debygol o fod ar eich amser, eto o ran digwyddiadau ymgynghori ar ffermydd gwynt, mae Nuon Renewables wir eisiau i chi deimlo'n rhan o'r prosiect hwn ac i fanteisio ar y cyfle gwirioneddol hwn i gyfrannu at rywbeth a allai fod yn rhan o ddatblygiad yr ardal yn y dyfodol. A fyddech mor garedig felly ag annog eraill i fod yn rhan o'r prosiect yng nghamau nesaf ei ddatblygu yn y dyfodol?

Y digwyddiad nesaf i'w gynnal yw gweithdy i randdeiliaid allweddol ac yma rydym yn gobeithio annog mwy o drafodaeth am y prosiect, pwyso a mesur safbwyntiau lleol, a dechrau edrych ar gyfleoedd y gall y prosiect eu cynnig i gyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy yn eich ardal. Os ydych yn rhan o grŵp cymunedol lleol (e.e. mudiad pobl ifanc, cymdeithas naturiaethwyr, clwb Ffermwyr Ifanc, grwpiau merched, clwb chwaraeon lleol, grŵp rhieni a phlant Bach ac ati) ac y byddech yn hoffi cael gwybod mwy, yna mae croeso cynnes i chi gysylltu â ni.

CANLYNIADAU

Yn y sesiynau galw-heibio, cyflwynom wybodaeth gefndir ar sut yr oedd y datblygiad arfaethedig hwn wedi dod i'r fei, a sut y mae wedi datblygu hyd yn hyn. Roeddem hefyd wedi gosod taflenni – y gallai pobl roi sylwadau arnynt – ynghylch gofynion cyfreithiol y datblygiad o ran materion megis effaith weledol, tyrbinau, ecoleg a bywyd gwyllt, amodau tir, hydroleg, archeoleg, aflonyddu'r amgylchedd ac yn y blaen. Cyflwynwyd cynlluniau'r prosiect penodol hwn a rhai'r ardal ehangach, gan ddangos cyd-destun gofodol y prosiect hwn ar y cyd â chynigion ffermydd gwynt newydd a rhai i'w hailbweru sydd ar y gweill gan gwmnïau eraill. Roedd yna hefyd rai ffotogyfosodiadau yno i bobl edrych arnynt, a'r rhain yn dangos y newidiadau i'r gorwel lleol o lefydd gwahanol, petai'r cynigion hyn (a rhai cyfagos eraill) yn mynd rhagddynt. Er mwyn ateb unrhyw gwestiynau, egluro unrhyw ddryswch ac i wrando ar sylwadau pobl leol, roedd uwch swyddogion y prosiect o Nuon Renewables a'u tîm technegol yn bresennol yno.

Roedd sawl sylw ysgrifenedig gan gyfranogwyr yn ymwneud ag effaith weledol y tyrbinau. Mae hwn yn fater goddrychol ac roedd sylwadau yn pontio'r rhychwant lawn gan amrywio o *"Rwy'n credu eu bod yn hardd, ac mewn 200 mlynedd mae'n siŵr y byddant yn "rhestredig!"* i *"byddant yn ddolur i'r llygad, hyd yn oed os mai dim ond 2 neu 3 cynnig gaiff ganiatâd".* (Roedd yr ail sylw hwn yn cyfeirio at y nifer fawr o gynigion sy'n cael eu hystyried yn annibynnol gan nifer o ddatblygwyr.) Er hynny roedd llawer o bobl wrth sgwrsio fel petaent i raddau yn derbyn y ffordd y mae tyrbinau yn effeithio ar y tirlun ac yn dangos gwerthfawrogiad gweledol ohonynt. Amlygwyd hyn mewn sawl ffordd: o gymeradwyo mesurau a gymerir gan Nuon i sicrhau bod cynigion yn cyd-fynd â graddfa a nodweddion y dirwedd, i hiwmor ar draul y tywydd lleol (*"Dim ond pan fyddwch yn gallu eu gweld drwy'r cymylau a'r niwl!*"), i nifer gymharol isel o sylwadau ar yr agwedd hon o'i gymharu â rhai mewn digwyddiadau ymgynghori cyfatebol mewn ardaloedd eraill. Fodd bynnag, yn y sylw canlynol crisialwyd pryder cyson a deimlid ynghylch effaith weledol y prosiect a'r datblygiad seilwaith: *"Mae'r peilonau y bydd eu hangen i fynd â'r holl bŵer (nid pŵer y prosiect hwn yn unig) i'r grid cenedlaethol yn annerbyniol. Ceblau dan ddaear, os gwelwch yn dda!"* Dim ond un person a wnaeth sylw uniongyrchol ar dyrbinau penodol, gan awgrymu eu hail-leoli, fel na fyddent mor *"...ISEL i lawr y bryn."*

Er bod rhai yn poeni am aflonyddu posibl yn sgil sŵn a thaflu cysgodion, roedd pobl eraill yn cymeradwyo'r mesurau gan Nuon i leihau'r aflonyddwch hwn cymaint ag y bo modd, ac i sicrhau y byddai lefelau sŵn cronnus yn sicr o fewn canllawiau. Dewisodd rhywun hefyd awgrymu fod: "*nentydd yn fwy swnllyd ac mae coed yn taflu cysgodion.*"

O ran ecoleg a bywyd gwyllt, soniodd y cyfranogwyr am bresenoldeb rhywogaethau adar penodol, gan bwyso o blaid ystyried effeithiau cronnus yr holl ddatblygiadau arfaethedig ar fywyd gwyllt ac ar hydroleg yn arbennig, yn hytrach nag effaith prosiect Rhyd Ddu ar ei ben ei hun. Roedd eraill yn croesawu'r cyfle a gyflwynir gan brosiectau fel hyn i astudio a lledaenu gwybodaeth yn ymwneud â bywyd gwyllt lleol.

O dan y pennawd "Economi, Cymdeithas a Thwristiaeth", unwaith eto mynegwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau, o bryderon am yr effaith negyddol ar dwristiaeth, i gynigion i fanteisio ar y prosiect a chreu mwy o gyfleoedd mynediad i gerddwyr a marchogion, a datblygu arddangosfeydd addysgol yn llawn gwybodaeth a nodiadau ar y safle. Roedd eraill yn awgrymu y dylid edrych ar yr elfennau

cadarnhaol, adfywiol sydd wedi digwydd yng Ngharno ac Adfa ac y dylid ailadrodd y rheiny yma, petai'r prosiect i fynd yn ei flaen. Soniodd eraill hefyd am y manteision i ffermwyr.

Y testun "Trafnidiaeth, Adeiladu ac Isadeiledd Presennol" a ddenodd y mwyaf o sylwadau - gyda phobl yn mynegi pryder ynghylch yr angen i wella ffyrdd lleol (gan felly golli eu "natur wledig"), yn enwedig ar hyd ffordd Talerddig. Ar yr un pryd, i'r gwrthwyneb, roedd eraill yn croesawu newidiadau angenrheidiol, a'r posibilrwydd o atgyweiriadau parhaol i ffyrdd a ddifrodir gan goedwigaeth a lorïau eraill â llwythi trwm. Roedd pobl hefyd yn poeni am y tarfu yn ystod y cyfnod adeiladu – o ran defnyddwyr rheolaidd y ffyrdd yn ogystal â mwy o drafnidiaeth yn cael effaith negyddol ar fywyd gwyllt. Cafwyd awgrymiadau y byddai gwella mynediad i gefn gwlad yn dod â manteision sylweddol.

Cododd y cwestiwn 'Manteision Cymunedol' beth diddordeb. Awgrymwyd bod rhai cymunedau eisoes yn elwa o ddatblygiadau ffermydd gwynt lleol, ac y byddai'n werth clywed eu profiadau hwy. Awgrymodd eraill y gallai'r arian helpu cynlluniau ynni adnewyddadwy ac effeithlon unigol yn ogystal â chynlluniau ynni lleol. Dywedodd eraill y byddai sefydlu pentref cynaliadwy/storfeydd cymunedol yn wasanaeth pwysig. Cafwyd un neu ddau awgrym y dylai'r gronfa gymunedol helpu i dalu am osodiadau ynni adnewyddadwy ar dai lleol (gan helpu i wneud iawn am unrhyw ostyngiad yng ngwerth tai a allai ddigwydd o ganlyniad i fod yn agos at y prosiect). Nododd sawl unigolyn y byddai'n well ganddynt pe na byddai Cyngor Sir Powys yn rheoli'r gronfa gymunedol.

Ni chafwyd nifer o sylwadau yn yr adran 'rhywbeth arall'. Cafwyd sylw yn nodi y byddai effaith gronnus yr holl ddatblygiadau ffermydd gwynt arfaethedig sydd ar y gweill yn gofyn gormod ar yr ardal, ond y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru rywsut yn gwthio hwn drwyddo. Manteisiodd unigolyn arall ar yr adran hon fel cyfle i restru eu prif wrthwynebiadau: byddai'r egni ynghlwm â'r datblygiad yn fwy nag y byddai'r tyrbinau yn ei gynhyrchu, a bod buddsoddi mewn ynni gwynt yn cyfeirio arian i ffwrdd o waith ymchwil a datblygu technolegau adnewyddadwy eraill.

Y CAMAU NESAF

Bydd ein hadroddiad llawn ar gael yn fuan a bydd yn rhoi ystyriaeth gyflawn i bob un sylw a wnaed. Ewch i:

http://www.nuonrenewables.com/newsite/projects/rhdu1/default.aspx

Mae'r holl bwyntiau a godwyd gan y cyfranogwyr yn y sesiynau galw-heibio eisoes wedi'u cyflwyno i Nuon Renewables, gan dynnu sylw at bwyntiau allweddol, materion y mae diddordeb cyhoeddus sylweddol ynddynt ac agweddau lle efallai fod angen newidiadau i'r cynigion sy'n datblygu. Mae aelodau tîm Nuon Renewables yn parhau i weithio'n ddygn ar y cynllun, gan ymgorffori'r holl adborth gan ymgynghorwyr statudol a phobl eraill er mwyn gwella pob agwedd ar y cynllun heb danseilio'n annerbyniol effeithlonrwydd cyffredinol y safle neu ei gapasati i gynhyrchu ynni. Mae materion eraill megis y llwybr cludiant gorau at y prosiect yn parhau i fod yn destun gwaith dwys.

Mae Nuon Renewables yn bwriadu ymateb i'ch galwad i gael gwell cyfathrebu a mwy ohono drwy gynnal cyfarfod â rhanddeiliaid allweddol yn y dyfodol agos ac, yn ddiweddarach, drwy anfon taflen arall yn rhoi gwybod i bobl leol pa faterion a

ddaeth i'r amlwg yn ystod yr holl ddigwyddiadau wyneb-i-wyneb, a pha sicrwydd y gallant ei roi. Os na fydd Nuon yn gallu argyhoeddi o ran pwyntiau penodol, bydd yn ymdrechu i egluro pam nad ydynt yn gallu gwneud hynny. Yn y cyfathrebu hwn, bydd Nuon Renewables hefyd yn rhoi gwybod i chi pryd y maent yn bwriadu cyflwyno eu cais, a sut y gallwch wneud eich sylwadau ffurfiol arno i'r awdurdod cynllunio perthnasol.

Mae hyn yn debygol o ddigwydd yng ngwanwyn / haf 2010, felly yna ddigon o gyfleoedd yn dal i chi fynegi eich barn.

Diolch i chi unwaith eto am eich diddordeb a'ch barn, ac am y croeso cawsom i'ch cymunedau. Edrychwn ymlaen at eich gweld eto yn fuan.

Jeff Bishop a Catrin Ellis Jones, BDOR Limited